Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 338 (Cymru) - 10 Chwefror 2023

Deddf Etholiadau: canllawiau hygyrchedd

Mae'r Ddeddf Etholiadau yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â chynorthwyo pobl anabl i bleidleisio ac yn cyflwyno dyletswydd ar y Comisiwn i ddarparu canllawiau i Swyddogion Canlyniadau ar yr angen i ddarparu cyfarpar rhesymol i gynorthwyo pleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio. Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau, ystyried y canllawiau hyn.

Rydym bellach wedi cyhoeddi i Swyddogion Canlyniadau y canllawiau hwn ar gymorth gyda phleidleisio ar gyfer etholwyr anabl.

Yn dilyn ymgynghoriad cychwynnol ar y canllawiau drafft yn yr hydref, cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol ar fersiwn wedi'i ddiweddaru o'r canllawiau rhwng 5 Rhagfyr a 16 Ionawr. Cawsom 42 o ymatebion gan aelodau o'r cyhoedd, gweinyddwyr etholiadol, ac ystod eang o sefydliadau elusennol, cymdeithas sifil a thrydydd sector. Gallwch ddod o hyd i grynodeb o'r adborth a dderbyniwyd a sut rydym wedi newid y canllawiau o ganlyniad i'r adborth hwn ar ein gwefan.

Os bydd angen unrhyw gymorth pellach arnoch, cysylltwch ag infowales@electoralcommission.org.uk.

Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2023

Diolch am eich holl gefnogaeth i hyrwyddo Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2023.

Gwelsom dros 300 o ysgolion a grwpiau ieuenctid ledled y DU yn cymryd rhan gyda phobl ifanc yn dysgu am ein democratiaeth, pleidleisio a mwy. Mae pobl ifanc wedi cymryd rhan mewn gwersi democratiaeth, ymgyrchoedd cofrestru, sgyrsiau gyda chynrychiolwyr lleol ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol. Ymhlith yr uchafbwyntiau yng Nghymru roedd Scouts Cymru yn ail-lansio eu bathodyn Her Democratiaeth a digwyddiad yn y Senedd gyda'r Gweinidog dros Addysg a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS. Cymerwch gip ar gyfryngau cymdeithasol gyda #CroesoIDyBleidlais ac #EinDemocratiaeth

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Deddf Etholiadau: canllawiau hygyrchedd

Gwybodaeth a dolen i ganllawiau wedi'u diweddaru i Swyddogion Canlyniadau ar gymorth gyda phleidleisio i bleidleiswyr anabl.

Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2023

Diolch am gymryd rhan a hyrwyddo'r wythnos ac nodyn atgoffa am ein hadnoddau addysg sydd ar gael.

Swydd wag yn y Comisiwn Etholiadol

Gwybodaeth am swydd a sut i wneud cais.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn

Os buoch yn gweithio gyda phobl ifanc, ysgolion neu grwpiau ieuenctid yn ystod Wythnos Croeso i Dy Bleidlais, a fyddech cystal â threulio dwy funud i rannu eich barn gyda ni fel y gallwn wneud Wythnos Croeso i Dy Bleidlais 2024 yn fwy ac yn well.

Mae ein hadnoddau addysg ar gael drwy gydol y flwyddyn ar ein gwefan.

Swydd wag yn y Comisiwn Etholiadol

Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio ar gyfer Cynghorydd Cymorth a Gwybodaeth, Cymru.

Y dyddiad cau ar gyfer y swydd yw dydd Mawrth 21 Chwefror. Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch â Catherine Uphill, Rheolwr, Comisiwn Etholiadol Cymru ar 029 2034 6802.

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud cais, ewch i dudalen recriwtio ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2023

Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.